**Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion) Uwchradd Addysg Gorfforol**

Cynhelir cyfweliadau drwy Microsoft Teams a bydd angen i ymgeiswyr fod ar gael ar gyfer naill ai bore neu brynhawn eu diwrnod cyfweld.

Disgwylir i ymgeiswyr wisgo’n ffurfiol ar gyfer y cyfweliad. Bydd gofyn i gamerâu fod ymlaen, a gofynnir i ymgeiswyr allu bod mewn ystafell dawel heb ymyriadau trwy gydol y broses gyfweld.

Bydd pob ymgeisydd yn cwblhau:

- **Cyflwyniad 2 funud o hyd** am eu hunain a’r hyn sydd wedi dylanwadu arnynt i ymgeisio ar gyfer TAR mewn Addysg Gorfforol (Add.Gorff.). Dylai hyn fod ar ffurf dim mwy na 2 sleid PowerPoint sy’n cynnwys lluniau/delweddau’n unig.
- **Cyfweliad grŵp** a fydd yn cynnwys trafodaeth 20 munud o hyd ar gwestiwn y cyfweliad a roddwyd yn seiliedig ar ymchwil yr ymgeisydd o gwmpas y maes a’i brofiad personol.
- **Cyfweliad unigol 8 munud o hyd** er mwyn i’r ymgeiswyr ateb cwestiynau a holir gan y panel.

<u>**Cwestiwn y cyfweliad**</u>

**Cwestiwn:**

O ystyried y diwygiadau addysgol cyfredol yng Nghymru, mae gan ysgolion le i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain. Yn eich barn chi, sut allai Addysg Gorfforol esblygu i adlewyrchu’r newidiadau mewn polisi a phwysigrwydd cynyddol y Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Iechyd a Lles?

**Meysydd efallai yr hoffech ystyried edrych arnynt i gefnogi eich ateb:**

- **Dyfodol Llwyddiannus**, y 4 diben craidd ac arweiniad ar gyfer cynnwys y MDaPh Iechyd a Lles

- **Llythrennedd Corfforol** fel cysyniad sylfaenol ar gyfer darpariaethau Add.Gorff. o Ansawdd Uchel a gweithgarwch corfforol gydol oes

- **Add.Gorff. yn Seiliedig ar Iechyd** fel modiwl o ymarfer addysgegol

- **Ysgogiad a chynhwysiant mewn Add.Gorff.**

*Byddem yn eich annog i rannu eich dealltwriaeth o lenyddiaeth ddiweddar yn ogystal â’ch barn bersonol eich hunain.*

Rhys Lloyd
**Arweinydd Dros Dro’r Rhaglen TAR Uwchradd Add.Gorff.**